Cynllun Corfforaethol 2019-2024

Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

2 Cyflwyniad Cryno

3 Datganiad Cenhadaeth

4 Dadansoddiad SWOT + PESTLE

5 Amcanion

6 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

7 Cynulleidfa Darged

8 Partneriaid Allweddol

9 Y Gymuned Leol

10 Cynllun Marchnata

11 Strwythur Staffio

12 Cynllun Gweithredol

13 Cyllid

14 Atodiadau

Atodiad 1 - Strategaeth Marchnata

Atodiad 2 - Cynllun Gweithredol 2019-2020

1 Crynodeb Gweithredol

Rydym yn fudiad, sydd wedi ei ddatblygu gan, ac ar gyfer y Mentrau Iaith lleol a'n nod yw cefnogi'r 22 Menter er mwyn gweld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ym mhob rhan o Gymru. Mae'r cynllun pum mlynedd hwn yn amlinellu ein gweledigaeth a'n hamcanion er mwyn gwireddu ein nod, ac mae'r gweithgareddau arfaethedig yn adlewyrchiad o'r angen a'r galw am gefnogaeth a gwasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol sydd wedi eu hadnabod gan y rhwydwaith o Fentrau Iaith.

Mae gwaith Mentrau Iaith Cymru, a'r gweithgareddau a gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r rhwydwaith o Fentrau, wedi cynyddu a datblygu yn sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth gefnogi'r Mentrau rydym wedi gosod seilwaith cadarn iddynt ddatblygu a chydweithio'n agosach gyda'i gilydd. Mae'r cynllun yn amlinellu ein bwriad i adeiladu ar y twf a'r momentwm hwn, ac mae'n cwmpasu gweithgareddau eang sy'n cynnwys cefnogaeth yn y meysydd polisi ac ymchwil, cefnogi'r rhwydwaith drwy ddigwyddiadau, marchnata, cyfathrebu, hyfforddiant, cydlynu prosiectau, cefnogaeth sefydliadol a gweithgareddau partneriaethol, ymysg meysydd allweddol eraill.

Wrth wireddu'r cynllun hwn byddwn yn sicrhau bod y Mentrau, fel rhwydwaith o fudiadau â gwreiddiau dwfn yn eu cymunedau lleol, yn y sefyllfa orau i weithredu yn rhagweithiol ac yn effeithiol er mwyn manteisio ar a chreu cyfleoedd lleol i gryfhau seiliau'r Gymraeg a'r defnydd ohoni yn ein cymunedau.

Mae anghenion, syniadau a blaenoriaethau'r Mentrau Iaith wrth galon ein gwaith a byddwn yn parhau i feithrin a chynnal ysbryd o gydweithio gyda strwythur cyfranogaeth gadarn yn y blynyddoedd i ddod.

Cyd-destun leithyddol

Mae'n gwaith yn cael ei yrru gan sefyllfa ieithyddol poblogaeth Cymru ac rydym yn deall pwysigrwydd rôl MIC wrth gefnogi'r Mentrau Iaith lleol i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Fel rhan o Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr mae'r Mentrau'n greiddiol i gyflawni Thema 2 - Cynyddu Defnydd er mwyn sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Wrth edrych i gynyddu'r canran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg o 10% i 20% erbyn 2050 byddwn yn ystyried ystadegau o'r Cyfrifiad a'r Arolwg Defnydd Iaith. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil annibynnol yn gofyn cwestiynau penodol am ddefnydd iaith.

2 Cyflwyniad Cryno

Rhwydwaith o grwpiau cymunedol yw'r Mentrau Iaith yn gweithio at gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg dros Gymru. Mae Mentrau Iaith Cymru yn cefnogi gwaith y mentrau lleol yn genedlaethol.

Mae tri prif faes i waith Mentrau Iaith Cymru, sef:

- Cefnogi Datblygiad y Mentrau Iaith
- Datblygu a Gweithredu Prosiectau
- Cydweithio er budd y Gymraeg

Cefndir

Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991, ac yn y blynyddoedd ers hynny mae cymunedau ar draws Cymru wedi gweithredu i ffurfio Mentrau eu hunain. Erbyn hyn mae 22 Menter Iaith yng Nghymru sy'n gwasanaethu pob rhan o Gymru.

Gan adnabod yr angen i gyfarfod, rhannu profiadau a gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o waith y Mentrau Iaith, sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn 1999

i weithio'n genedlaethol am fudd lleol. Ers hyn, mae'r mudiad wedi tyfu ac erbyn 2019 yn cyflogi 6 aelod o staff er mwyn rhoi'r gefnogaeth orau posib i'r Mentrau Iaith.

Gweledigaeth y Mentrau Iaith yng nghyfnod 2016-19 oedd Mentro Mwy gyda chodi safon llywodraethiant a chydweithio ar brosiectau cenedlaethol yn graidd i'r gwaith. Yn ystod y cyfnod mae MIC wedi derbyn Marc Ansawdd PQASSO sy'n cydnabod llywodraethiant da yn y trydydd sector ac wedi denu prosiectau ceneldaethol fel Ras yr Iaith, Cymraeg Byd Busnes, Grantiau Papurau Bro a Grantiau Gwyliau sy'n cael eu cydlynu'n genedlaethol ond a'u budd yn y gymuned leol.

3 Datganiad Cenhadaeth

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru. Rydym am weld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol ym mhob rhan o Gymru.

Rydym yn gorff cefnogi effeithiol i'r Mentrau Iaith drwy gynnig gwasanaethau perthnasol o safon uchel sy'n cefnogi a meithrin datblygiad strategol y Mentrau Iaith er budd y Gymraeg.

Gwerthoedd

Ein gwerthoedd yw:

Y Gymraeg

- Lles y Gymraeg heddiw ac yn y dyfodol yw rheswm ein bodolaeth
- Mae gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg ym mhob agwedd o fywyd
- Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru
- Mae'r Gymraeg yn sgil y gall bawb ei dysgu a'i defnyddio

Ein Gwaith

- Rydym yn gweithio mewn ffordd dryloyw a democrataidd
- Mae modd i ni gyflawni mwy drwy rannu a chydweithio ag eraill
- Rydym yn cynnig gwasanaethau proffesiynol ac effeithiol

- Rydym yn gweithio mewn modd sy'n llesol i'r amgylchedd
- Rydym yn hyblyg, yn greadigol ac yn arloesol
- Rydym yn dysgu o brofiad

Pobl

- Rydym yn trin pawb yn gyfartal
- Rydym yn ymateb i anghenion ein cynulleidfa
- Rydym yn cefnogi ein gweithwyr a'u datblygiad

4 Dadansoddiad SWOT + PESTLE

Dadansoddiad PESTLE (Yn Saesneg, Political, Economic, Social, Technological, Legal, Environmental)

Gwleidyddol:	• Gweinidog y Gymraeg wedi bod yn ganmoladwy o'r Mentrau a MIC • Perthynas ragorol ar hyn o bryd gyda staff is-adran y Gymraeg • Pethau'n gallu newid yn gyflym, megis newid gweinidog • Gall newid staff o fewn yr is-adran, neu gamgymeriadau o'n hochr ni (neu'r Mentrau) olygu newid yr agwedd gadarnhaol sydd ohoni • Gall newid Comisiynydd yr Iaith ym mis Ebrill 2019 gael effaith gadarnhaol neu negyddol felly bydd angen sicrhau perthynas dda • Cyflwyno bil sy'n cynnig newid i statws y Gymraeg
Economaidd:	• Peryg bydd cyllideb Cymru yn crebachu eto, gall hyn olygu gwasgfa ar gyllideb y Gymraeg • Diffyg ffrydiau incwm eraill ar gael • Is-adran y Gymraeg i weld yn ymddiried ym MIC, felly yn agor y

	drysau i'r posibilrwydd o fwy o brosiectau
Cymdeithasol:	• Tueddiadau cymdeithasol pobl yn newid, ymgyrchoedd MIC angen esblygu i adlewyrchu hyn e.e. Y defnydd o dechnoleg
Technolegol:	• Angen parhau i fuddsoddi mewn cyfrifiaduron • Angen datblygu mwy o ymrgychoedd cenedlaethol, a gwneud ceisiadau am yr arian "Arloesi" (Os y bydd ar gael eleni) • Angen datblygu sgiliau staff • E-bost a gwefan - angen cefnogaeth newydd
Cyfreithiol:	• GDPR yn storm ar y gorwel • Bas Data Cymraeg Byd Busnes, angen cefnogaeth gyfreithiol
Amgylcheddol:	• Defnydd ceir/ tanwydd yn uchel
Cyllid:	• MIC yn or ddibynnol ar un cyllidwr • MIC yn dibynnu ar arian gan y Mentrau

Asesiad SWOT (yn Strengths, Weaknesses, Opportunities a Threats)

Cryfderau: • Staff- swyddogion datblygu wedi magu hyder wedi blwyddyn yn eu swyddi, ac yn bluen yn het y cwmni, arweinydd tîm wedi tyfu mewn i'r rôl • Y tîm wedi tyfu yn rhyddhau amser staff i ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau • Llywodraethiant- proses PQASSO	**Gwendidau:** • Or ddibynol ar gyllid y llywodraeth • Staff yn gweithio 100% o'r amser felly diffyg amser i gynllunio a gwneud ceisiadau newydd • Grant newydd 2019 ymlaen • Adnoddau Dynol • Prosiect Byd Busnes (os yn methu) • System e-bost / TG

wedi cryfhau'r elfen yma, cyfathrebu clir a chadarn bellach • Y Mentrau- mwy a mwy i weld yn closio at MIC a'n sylweddoli pwysigrwydd cael llais cenedlaethol a rhwydwaith gref • Partneriaethau- yr elfen yma wedi ac yn cryfhau • Perthynas gyda Llywodraeth Cymru • Prosiect Byd Busnes wedi llwyddo ym mlwyddyn 1 • MIC wedi symud swyddfa i hen fanc Llanrwst, gyda delwedd fwy proffesiynol	• Angen cyfrifiaduron newydd i ddau aelod o staff • Angen offer Marchnata newydd (dodrefn i stondinau) • Swyddfeydd yn gweithio'n iawn, ond prinder lle yn Llanrwst, MI Conwy yn prynu hen adeilad banc y dref am wneud pethau'n fwy hwylus. Prinder lle storio yn gyffredinol
Cyfleoedd: • PQASSO yn ein cryfhau yn fewnol ac allanol • Creu mwy o bartneriaethau: S4C, WCVA, WSA, AOC ayyb • Ffrydiau incwm eraill fel loteri • Grant Newydd 2019 ymlaen • Rheoli grantiau eraill ar ran y Llywodraeth	**Bygythiadau:** • Newidiadau gwleidyddol • Grant newydd o 2019 ymlaen a newidiadau all hyn olygu • Mwy o gystadleuaeth am y grantiau 2019 ymlaen • Os yw prosiect neu Fenter arall yn methu yna gall adlewyrchu'n wael arnom (rhesymau tu hwnt i'n gafael)

5 Amcanion 2019 - 2024

Ein prif nod yn ystod y cyfnod yw:
Cefnogi'r Mentrau Iaith er mwyn gweld cynnydd mewn defnydd o'r Gymraeg

Mewn cyfnod o newid gyda datblygiadau a heriau economaidd a chymdeithasol rydym ni am gynnig gwasanaethau a chefnogaeth o safon uchel i'r rhwydwaith o Mentrau Iaith er mwyn cefnogi eu gwaith o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws

Cymru.

Mae ein hamcanion i gyrraedd ein nod isod, a cheir manylion pellach ynglŷn â phob un amcan yn ein Cynllun Gweithredu.

1. Cefnogi Datblygiad y Mentrau Iaith

1.1. Rhannu gwybodaeth ac arfer da

1.2. Hwyluso cydweithio a chefnogaeth ymysg y Mentrau Iaith

1.3. Cynnig cefnogaeth hyfforddiant

1.4. Cynnig cefnogaeth marchnata a chyfathrebu

1.5. Cefnogi'r Mentrau Iaith i fod yn arbenigwyr cynllunio ieithyddol a datblygwyr cymunedol

1.6. Darparu cefnogaeth sefydliadol yn annog defnydd o systemau effeithiol, a chynnig gwasanaethau o ansawdd uchel cyson

1.7. Cefnogi gweithredu ar lefel strategol

1.8. Annog arloesedd

1.9. Cynrychioli'r Mentrau Iaith

1.10. Bod yn brif gyswllt rhwng y Mentrau Iaith a chyllidwyr cenedlaethol

1.11. Datblygu partneriaethau er budd y Mentrau Iaith a'r Gymraeg

2. Prosiectau

2.1. Defnyddio model Cymraeg Byd Busnes sy'n cael ei gydlynu'n genedlaethol a'i weithredu'n lleol

2.2. Edrych ar gyfleoedd i gynyddu gwerth economaidd y Gymraeg

2.3. Ymchwilio i brosiectau posib, gyda phartneriaid ac mewn meysydd newydd

2.4. Datblygu prosiectau sydd yn newid agweddau ac ymddygiad

2.5. Datblygu prosiectau sydd yn mynd i'n cynorthwyo i gefnogi'r Mentrau Iaith

3. Cydweithio

3.1. Ymateb yn rhagweithiol i ymgynghoriadau

3.2. Dylanwadu ar bolisi er budd y Gymraeg

3.3. Rhwydweithio â phartneriaid yn y maes Cymraeg a thu hwnt

3.4. Cyfathrebu a chydweithio'n effeithiol gyda'r Mentrau Iaith, y cyhoedd, partneriaid ac eraill

6 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae mesur canlyniadau, gwerthuso a chynllunio bwriadus yn elfennau craidd i'n gweithgareddau. Wrth osod targedau uchelgeisiol ond realistig rydym yn adnabod dangosyddion perfformiad allweddol yn gyson sydd yn unigryw i'n gweithgareddau a'n prosiectau, gan gynnwys:

- Nifer o weithgareddau
- Nifer o fuddiolwyr
- Canlyniadau i fuddiolwyr (e.e. gwella sgiliau, gwybodaeth, canlyniadau cymorth a chefnogaeth)
- Nifer o Fentrau Iaith sydd yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol / arbenigol
- Trosiant a chodi arian

Mesur Canlyniadau

Gyda **chefnogi'r Mentrau Iaith i weld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg** fel ein prif nod yn ystod y cyfnod hwn, y prif ddangosyddion lefel uchel a hir dymor sydd yn ymwneud â datblygiad y Gymraeg yw canlyniadau'r cyfrifiad. Yn ogystal mae Uned Ymchwil Llywodraeth Cymru a chyrff eraill megis Prifysgolion yn cynnal arolygon ar y defnydd o'r Gymraeg ar draws Cymru.

Yn ddiweddar rydym wedi ymgymryd â gwaith yn y maes mesur canlyniadau gyda'r nod o roi arweiniad a rhannu gwybodaeth â'r Mentrau Iaith. Yn ystod y cyfnod nesaf rydym am barhau â rhagor o waith ar y pwnc hwn er mwyn sicrhau bod canlyniadau gweithgareddau yn cael eu mesur yn effeithiol.

7 Cynulleidfaoedd Targed

Mae gan Mentrau Iaith Cymru dair prif gynulleidfa darged:

1. Y Mentrau Iaith

Y Mentrau Iaith yw ein prif gynulleidfa darged ac mae ein gweithgareddau a gwasanaethau wedi anelu at y rhwydwaith o Fentrau Iaith ar draws Cymru.

Ar hyn o bryd mae 22 Menter Iaith ar draws Cymru, gydag un ym mhob sir ac eithrio Sir Gâr sydd â thair a Phowys sydd â dwy, ac un Fenter sydd yn weithredol ym Mlaenau Gwent, Torfaen a Mynwy.

Rydym yn cefnogi'r grŵp yma'n effeithiol wrth gysylltu'n uniongyrchol â hwy ar sawl lefel gan gynnwys Cyfarwyddwyr, Prif Swyddogion a Swyddogion Maes. Rydym yn ymgynghori'n gyson gyda'n prif gynulleidfa ac yn addasu a'n gweithredu wrth ateb eu hanghenion drwy hyfforddiant, cynadleddau, cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol, cefnogaeth drwy e-bost a dros y ffôn a mwy.

2. Sefydliadau Allweddol

Rydym yn cydweithio yn agos gydag amrywiaeth o sefydliadau sydd yn dylanwadu ar sefyllfa'r Gymraeg. Mae'n bwysig ein bod yn cydweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol.

Yn ogystal â sefydliadau sydd yn gweithredu yn y maes, mae sefydliadau eraill yn

dylanwadu'n fawr ar y Gymraeg, ac rydym yn awyddus i ddylanwadu ar eu penderfyniadau hwy ynglŷn â'r Gymraeg i sicrhau eu bod yn gefnogol i'r iaith, a bod adnoddau ar gael i gefnogi cynnydd yn eu defnydd. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys:

- Cyrff Statudol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff eraill
- Mudiadau Trydydd Sector
- Y Sector Breifat

3. Y Cyhoedd

Drwy gydweithio gyda swyddogion y Mentrau lleol a sefydliadau allweddol rydym yn cyfeirio'r cyhoedd at waith y Mentrau a sut gallant helpu i gynnyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ym mhob rhan o Gymru trwy ddefnyddio ein gwefan, y rhwydweithau cymdeithasol, presenoldeb mewn digwyddiadau, datganiadau i'r wasg a phrosiectau ac ymgyrchoedd penodol.

Rydym yn cefnogi'r Mentrau laith i gyrraedd eu grwpiau targed yn effeithiol gan addasu i weithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol i gyrraedd eu cynulleidfaoedd. Drwy ddefnyddio gwaith Dyrannu Cynulleidfa a chyweithio'n strategol gyda phartneriaid allweddol byddwn yn defnyddio negeseuon penodol a dulliau hyrwyddo gwahanol wrth dargedu'r gwahanol gynulleidfaoedd.

8 Partneriaid Allweddol

Mae gennym berthynas cydweithio cryf ag amrywiaeth o fudiadau a sefydliadau megis y rhai a restrir isod drwy gydweithio'n strategol; trafod a chynnal deialog rheolaidd; codi ymwybyddiaeth o weithgareddau; ymateb i ymgynghoriadau; rhannu gwybodaeth ac arfer dda; cydweithio ar brosiectau; edrych am gyfleoedd newydd i gydweithio,

- **Llywodraeth Cymru** - pwynt cyswllt rhwng y Mentrau laith a'r Llywodraeth;
- **Comisiynydd y Gymraeg**

- **Urdd Gobaith Cymru** - cydweithio'n strategol yn ôl ein memorandwm cydweithio a ddatblygwyd ar y cyd
- **Mudiad Meithrin** - cydweithio'n strategol yn ôl ein memorandwm cydweithio a ddatblygwyd ar y cyd
- **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol** - cydweithio'n strategol yn ôl ein memorandwm cydweithio a ddatblygwyd ar y cyd
- **Cymraeg i Blant** - cydweithio'n strategol yn ôl ein memorandwm cydweithio a ddatblygwyd ar y cyd
- **Merched y Wawr**
- **Ffermwyr Ifanc Cymru**
- **Eisteddfod Genedlaethol**
- **S4C**
- **BBC Cymru**
- **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
- **Dathlu'r Gymraeg**
- **WCVA**

Yn ystod cyfnod y cynllun hwn rydym am barhau i gydweithio â'n partneriaid craidd, a chwilio yn gyson am bartneriaethau newydd i ehangu ein rhwydweithiau.

9 Y Gymuned Leol

Fel mudiadau sydd yn cael eu rheoli a'u harwain gan bwyllgorau gwirfoddol yn eu cymunedau, mae gwaith y Mentrau Iaith yn gwbl ddibynnol ar gyfranogaeth eu cymunedau lleol. Trwy gydweithio agos â'r Mentrau Iaith fel ein defnyddwyr rydym hefyd yn sicrhau cyfranogaeth a mewnbwn gan gymunedau lleol y Mentrau Iaith trwy eu gwirfoddolwyr.

10 Marchnata

Crynodeb o'r Strategaeth Farchnata 2019-20

Yn hytrach na chreu Strategaeth Farchnata ar gyfer MIC yn unig, mae'r strategaeth hwn wedi'i chreu fel sylfaen i waith marchnata a chyfathrebu pob Menter Iaith fel rhwydwaith ar y cyd â MIC yn genedlaethol. Prif ffactorau sydd wedi'u hamlinellu yn y strategaeth yw:

- cysoni negeseuon a delwedd yn genedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y rhwydwaith a buddion y Gymraeg
- sicrhau hyblygrwydd i addasu negeseuon a delwedd er mwyn arddangos yr elfen lleol a chymunedol sy'n graidd i waith y Mentrau Iaith
- cryfhau cyfathrebu mewnol er mwyn rhannu gwybodaeth, sgiliau ac arferion da ymysg y Mentrau er mwyn arfogi swyddogion i allu hyrwyddo'n effeithiol
- targedu cynulleidfaoedd yn fwy effeithiol drwy wahaniaethu rhwng 'rhoddwyr' a 'defnyddwyr' y fenter a defnyddio tactegau delweddol a llwyfannau wrth dargedu gwahanol segmentau cynulleidfa
- cydweithio gyda phartneriaid yn y maes Cymraeg fel ein bod yn defnyddio yr un negeseuon wrth hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg
- cynnal ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo'r Mentrau, denu gwirfoddolwyr a dathlu gwerth y rhwydwaith yn genedlaethol

Gweler Atodiad 1 - Strategeth Marchnata.

12 Strwythur y Sefydliad

I gyrraedd nodau ac amcanion Mentrau Iaith Cymru ac i wireddu'r blaenoriaethau gweithredol a strategol, mae angen sicrhau adnoddau i barhau i ddatblygu'r strwythur bresennol.

Gweler isod ein strwythur bresenol.



Bwrdd Rheoli

Cynrychiolaeth o bob Menter Iaith sy'n aelodau o MIC (pob menter yn cael anfon dau gynrychiolydd ac enwebu un ohonynt i fod yn un o Gyfarwyddwyr MIC, y prif swyddog fel arfer). Gwahoddir pob prif swyddog i'r cyfarfodydd a chroesewir cynrychiolaeth aelod o fwrdd rheoli pob Menter hefyd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd sy'n gweithredu am ddwy flynedd i arwain y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol.

Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol

Gwneud y gwaith o reoli MIC o ddydd i ddydd, cynrychioli MIC mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn cyfweld ac apwyntio staff newydd. Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a 3 aelod sydd wedi eu hethol i'r Pwyllgor Gweithredol gan y rhanbarthau (2 o bob rhanbarth). Mae'r Bwrdd Rheoli yn ethol y swyddogion o'r 6 yma bob dwy flynedd, sef yr un swyddogion â'r Bwrdd Rheoli. Bydd yr Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

Pwyllgorau Rhanbarthol

Cyfarfodydd rhanbarthol (Gogledd, De Orllewin a'r De Ddwyrain) sy'n gyfle i drafod pwyntiau rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cael eu bwydo nôl i'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol yn gwahodd Prif Swyddog o bob Menter Iaith yn y rhanbarth gan ethol Cadeirydd ei hun. Mae'r cadeirydd yn un o'r aelodau sy'n cynrychioli'r rhanbarth ar y Pwyllgor Gweithredol. Bydd Cadeirydd yn

cael ei ethol bob dwy flynedd.

12 Cynllun Gweithredu

Gweler Atodiad 2 - Cynllun Gweithredu.

13 Cyllid

Cyllideb

INCWM 2019-2020:

Ffrwd Incwm	Swm
Grant Craidd Llywodraeth Cymru	£307,710
Aelodaeth Mentrau Iaith	£22,000
WCVA am waith Partneriaeth y Trydydd Sector	£3,560
Cymraeg Byd Busnes (gan LlC- yn y 12 mis 1/4/19 hyd 31/3/20)	£100,000 (Ebrill i Gorffennaf) £322,322 (Awst i Mawrth)
CYFANSWM	**£755,592**

Cyllideb 2019-2020

Gwariant	Swm
Cyflogaeth Craidd (Arweinydd tîm 95%, 2 x Cydlynydd, 1 Swyddog Datblygu, Gweinyddwr 40%)	£131,599
Costau Prosiectau- Marchnata Digwyddiadau Rhwydwaith Hyfforddiant a Chodi Ansawdd Cynllun Gwyliau Cynllun Papurau Bro **Cyfanswm Prosiectau**	 £5,500 £8,000 £5,500 £50,000 £97,810 £166,810
Costau Canolog	£24,500
Byd Busnes- Cyflogaeth Mic CBB (5% Arweinydd Tîm, Swyddog Gweinyddol 40% a Cydlynnydd llawn amser) Cytundebau Mentrau Treuliau a Technoleg Digwyddiadau a Marchnata Cyfanswm Byd Busnes	 £40,048 £381,055 £35,000 £17,000 £473,103* *(ar incwm o £422,322 am y 12 mis, ond byddwn yn cario £66,703 mewn i Ebrill- bydd angen tynnu Mawrth 19 o hyn- amcangyfrif £10,000 am Mawrth felly cario £56,703. Cyfanswm Incwm CBB felly £479,025. Gadael £5,922 wrth gefn yng nghyllideb CBB.

Cyllid 2020-24:

Byddwn yn anelu i barhau i gadw'r cyllid craidd a chyllid Cymraeg Byd Busnes yn

sefydlog drwy barhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru, byddwn yn gwthio am gynnydd yn y grant er mwyn parhau i allu codi cyflogau yn flynyddol, yn unol â graddfa NJC.
Byddwn yn targedu cronfeydd megis cronfa treftadaeth y loteri ar gyfer prosiectau cenedlaethol fydd yn ffrwd incwm ychwanegol ac yn gallu mynd peth ffordd tuag at gefnogi'r gyllideb os bydd toriadau gan y Llywodraeth.

Ffrydiau Incwm Eraill

Tu hwnt i'r gyllideb uchod mae'n flaenoriaeth dros y pum mlynedd nesaf i ni dargedu a datblygu ffrydiau incwm newydd, gan gynnwys cynyddu ein hincwm trwy gyllid grant, ymddiriedolaethau, trwy werthu gwasanaethau, tendro am gontractau a dulliau codi arian amgen (e.e. cyllid torfol).

Mae'r ffrydiau grant rydym wedi eu hadnabod fel ffrydiau i'w targedu yn cynnwys:

- Cronfeydd y Loteri
- Cronfeydd a grantiau gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru
- Ymddiriedolaethau e.e. Esmee Fairburn, Paul Hamlyn Foundation

Diwedd